
Gomer

# ARWR Y NAID BYNJI

JULIE BERTAGNA

Addasiad Elin Meek





Pennod 1

# Dafydd yn Cwrdd ag Arwr Diflas

Ciciodd Dafydd y bêl heibio i'r gôl-geidwad. Hwrê! Roedd hi yng nghefn y rhwyd! Cododd y dyrfa enfawr i'w thraed a bloeddio. Cododd Dafydd ei ddyrnau i saliwtio'r dyrfa; roedd ei dîm wedi ennill. Roedd e'n arwr. Byddai pawb yn ei gofio fel pêl-droediwr gwych. Dafydd Rowlands, saethwr y ganrif.

'Brysia i'r car, Dafydd.'

'O, Mam,' cwynodd Dafydd. 'Oes rhaid i mi?'

Diflannodd y dyrfa bêl-droed ddychmygol, a'r ddau dîm. Diflannodd y cae pêl-droed enfawr ym mhen Dafydd hefyd, ac roedd yn ôl yn ei ardd ei hun. Ciciodd ei bêl-droed ddychmygol unwaith eto, gan esgus ei chicio drwy ffenest y lolfa, ac aeth i mewn i'r car.

Syllodd ei fam arno. 'Fe gei di dalu am y ffenest 'na mas o dy arian poced,' meddai wrtho, heb wên ar ei hwyneb.

Chwarddodd Dafydd. Efallai bod Mam yn boendod weithiau ond roedd hi'n gallu chwerthin am ben jôc.

'Oes rhaid i ni fynd i'r cartref henoed 'na heddiw?' cwynodd Dafydd. 'Mae pawb arall yn mynd i gael byrgyrs ar ôl yr ysgol ar ddydd Gwener.'

'Fe allan nhw wneud hebot ti am awr fach,' atebodd Mam. 'Beth bynnag, dim ond eisiau dy help di i symud ychydig o focsys sydd.



Fe fydd e'n ymarfer da i ti. Mae'n rhaid i arwr pêl-droed fod yn ffit, does bosib?'

'Dim un dychmygol,' meddai Dafydd o dan ei anadl wrth iddyn nhw yrru i'r cartref henoed. 'Dychmygu 'mod i'n ffit ydw i, dyna i gyd.'



Roedd mam Dafydd yn helpu mewn cartref nyrsio i hen bobl. Weithiau, byddai hi'n gofyn i Dafydd ddod gyda hi i'w helpu.

Roedd Mam yn dwlu gwrando ar hanes bywydau'r hen bobl. I Dafydd, roedden nhw'n ddiflas ofnadwy. Yn enwedig ar bnawn Gwener ar ôl yr ysgol, pan ddylai e fod yn eistedd yn y bar byrgyrs, yn cynllunio'r penwythnos gyda Sam a Rhodri.

'Ddwedes i wrthot ti bod Mrs Jenkins yn arfer dawnsio gwerin?' meddai Mam. 'Fe enillodd hi yn Eisteddfod yr Urdd un flwyddyn. Mae'n anodd credu'r peth, on'd yw e?'

Doedd hi ddim yn *anodd* credu'r peth. Roedd yn amhosibl. Doedd dim taten o wahaniaeth gan Dafydd petai Mrs Jenkins yn arfer gweithio gyda'r llewod mewn syrcas. Roedd y cyfan mor bell i ffwrdd, hen hanes oedd e. Dim ond hen berson bach diflas oedd hi nawr, fel pawb arall yn y cartref.




Aeth Dafydd i'r stordy yn seler y cartref nyrsio a dechrau cario bocsys o fwyd tun i fyny i'r gegin. Cymerodd hyn oesoedd, a doedd Mam dal ddim yn barod pan oedd e wedi gorffen.

'Wnaiff aros am ddeng munud arall mo'th ladd di, Dafydd,' meddai wrtho. 'Dwi eisiau mynd â Mr Llwyd mas am ychydig o awyr iach. Mae e wedi bod yn ei wely drwy'r wythnos, druan, yn llawn annwyd.'

Edrychodd Dafydd ar ei wats. Efallai y *byddai* deng munud arall yn ei ladd e. Efallai y byddai e'n marw o ddiflastod. Byddai Sam a Rhodri'n mynd i rywle hebddo os na allai gyrraedd y bar byrgyrs cyn hir.

Tra aeth Mam i gasglu Mr Llwyd, treuliodd Dafydd yr amser yn dychmygu'r hen ddyn fel darn o lechen lwyd mewn cadair olwyn. Hen lechen oedd yn adrodd hanesion hir



a diflas am ei bywyd hir a diflas mewn chwarel wlyb a diflas.

Dim ond hen ddyn cyffredin mewn cadair olwyn oedd Mr Llwyd yn y diwedd. Ond roedd ei lygaid yr un lliw â llechen, meddyliodd Dafydd. Dechreuodd gicio'i bêl-droed ddychmygol yn ôl ac ymlaen o flaen y gadair olwyn wrth i Mam wthio Mr Llwyd o gwmpas gerddi'r cartref nyrsio.

'Dafydd!' meddai Mam yn grac, wrth iddo gicio'r bêl dros ben yr hen ddyn. Roedd e'n esgus mai chwaraewr canol cae yn ymosod oedd Mr Llwyd – un eithaf araf, rhaid dweud.

Edrychodd Mr Llwyd ar Dafydd â llygaid oer, cas a ffyrnig.

'Fe fyddai'n well o lawer gen *innau* chwarae pêl-droed dychmygol na llusgo o gwmpas gyda hen foi diwerth mewn cadair olwyn,' meddai Mr Llwyd.

Daeth y gêm bêl-droed ym meddwl Dafydd i ben yn sydyn. Edrychodd Mam yn gas arno. Cerddodd Dafydd yn dawel y tu ôl i Mam a Mr Llwyd am weddill yr amser. Doedd e ddim eisiau mentro colli'i arian poced.

'Roedd Mr Llwyd yn barasiwtydd yn yr Ail Ryfel Byd, Dafydd,' meddai Mam, wrth iddyn nhw droi'n ôl i'r cartref nyrsio. 'Fe gafodd e fedal am fod yn ddewr.'

'Beth am hynny?' meddai Dafydd o dan ei anadl. Edrychodd ar ei wats. Byddai Sam a Rhodri wedi rhoi'r gorau i aros amdano erbyn hyn. Y peth diwethaf roedd e eisiau oedd i'r hen foi 'ma ddechrau siarad yn ddiddiwedd am yr Ail Ryfel Byd.

Ond y cyfan wnaeth yr hen ddyn oedd edrych ar y gerddi â'i lygaid ffyrnig.

'Dyna'n union dwi'n ei feddwl hefyd,' meddai Mr Llwyd, ar ôl eiliad. 'Beth am hynny?'





Daliodd Dafydd ei anadl. Roedd e wedi meddwl bod yr hen ddyn yn rhy drwm ei glyw i glywed yr hyn roedd e wedi'i ddweud.

Edrychai Mam yn wyllt gacwn nawr.

'Fe fydd yn rhaid i chi esgusodi Dafydd, Mr Llwyd,' meddai hi. 'Mae e'n awyddus i fynd allan gyda'i ffrindiau. Ac mae eisiau bwyd arno fe. Dyna pam mae e mor anghwrtais.'

'O,' meddai Mr Llwyd, gan edrych yn gas ar Dafydd unwaith eto. 'Fe wela i.'

'Hwyl,' meddai Dafydd yn dawel, wrth i Mam wthio'r hen ddyn i fyny'r ramp o flaen mynedfa'r cartref nyrsio. Edrychodd Mr Llwyd ddim arno, hyd yn oed.

Rhyfedd, meddyliodd Dafydd, ond roedd popeth am Mr Llwyd yn llwyd. Roedd ganddo wyneb hir, llwyd, a gwefusau llwyd a llygaid





cas llwyd. Efallai bod darn o lechen yn lle coesau o dan y garthen oedd wedi'i lapio am waelod ei gorff. Chwarddodd Dafydd wrtho'i hun ac edrych yn ôl ar yr hen ddyn.

Cafodd Dafydd dipyn o sioc wrth iddo edrych yn agosach. Roedd y garthen yn gorwedd yn wastad ar ddarn isaf y gadair olwyn. Roedd y darn i orffwys ei draed arno'n wag hefyd.

Doedd dim modd i Mr Llwyd fod yn barasiwtydd yn yr Ail Ryfel Byd, meddyliodd Dafydd. Doedd y peth ddim yn bosibl.

Doedd dim coesau gan yr hen ddyn.



## Pennod 2

# Mr Pendro

'Wyt ti'n siŵr nad creu rhyw stori amdano'i hun mae Mr Llwyd wrth sôn am fod yn arwr yn y rhyfel?' gofynnodd Dafydd i'w fam ar y ffordd adref. 'Wyt ti'n cofio'r hen fenyw 'na ddwedodd wrthot ti am yr wyrion oedd ganddi – dau ddeg chwech i gyd. Yna, daethoch chi i wybod nad oedd teulu wedi bod ganddi erioed. Dim ond dychmygu'r cyfan roedd hi wedi'i wneud!'

Ysgydwodd Mam ei phen.

'Does dim byd yn bod ar Mr Llwyd. Dyw e ddim wedi bod yn hen ddyn mewn cadair



olwyn erioed, Dafydd. Mae hen ffotograffau yn ei ystafell e. Mae un ohonyn nhw'n dangos bachgen tua'r un oed â ti, gyda phêl-droed wrth ei draed. Dwi'n siŵr mai fe yw e. Ffotograff o ddyn ifanc yn glanio mewn parasiwt yw'r llall. Dwi'n siŵr mai fe yw hwnnw hefyd. Roedd e'n olygus iawn bryd hynny.'

Roedd hi'n amhosibl i Dafydd ddychmygu'r hen ddyn cas yn y gadair olwyn naill ai'n fachgen yn chwarae pêl-droed *neu*'n barasiwtydd ifanc golygus.

'Sut collodd e ei goesau?' gofynnodd.

'Wn i ddim,' meddai Mam. 'Dyw e ddim yn gwestiwn rwyt ti'n gallu'i ofyn, ydy e?'

Stopiodd Mam y car y tu allan i'r bar byrgyrs. Roedd Sam a Rhodri yn eu sedd arferol wrth y ffenest lle gallen nhw syllu a rhythu ar y merched oedd yn mynd heibio.



'Ti'n gweld, dydyn nhw ddim wedi mynd a'th adael di,' meddai Mam. 'Doedd dim angen i ti fod mor anghwrtais wrth Mr Llwyd.'

'Sori,' meddai Dafydd. Gwenodd yn annwyl ar ei fam. 'Fe symudais i'r holl focsys 'na,' atgoffodd hi.

'Do,' chwarddodd hithau, gan roi arian iddo gael byrgyr. 'Ond y tro nesaf, tria ddangos tipyn o barch tuag at hen ddyn a fentrodd ei fywyd drosot ti.'

Drosto i? meddyliodd Dafydd, wrth iddo ddisgwyl yn y ciw am ei fyrgyr a'i ddiod. Doedd e'n ddim byd i'w wneud â mi. Do'n i ddim wedi cael fy ngeni, hyd yn oed.

Ond, wrth iddo aros yn y ciw hir, dechreuodd Dafydd feddwl sut beth oedd bod yn arwr rhyfel, gan barasiwtio i lawr i dir y gelyn ar neges beryglus.

‘Ble buest ti?’ meddai Sam, pan gyrhaeddodd Dafydd atyn nhw o’r diwedd. ‘Mae’r carnifal i lawr ar lan yr afon. Bwyta’r byrgyr ’na’n glou ac fe awn ni lawr ’na.’


Gwenodd Rhodri. ‘Mae Olwyn Fawr Mr Pendro’n anferthol. Y fwyaf yn Ewrop. Dwi’n gallu ei gweld hi o fy stafell wely.’


Llowciodd Dafydd weddill ei fyrgyr.

‘Ardderchog. Bant â ni!’ meddai.

*   *   *







Roedd y carnifal ar lan yr afon oedd yn llifo drwy ganol y ddinas. Wrth iddi nosi, roedd yr holl le'n fyw o sŵn a lliw a symud. Pefriai goleuadau llachar y carnifal dros yr afon i gyd.

Erbyn i Dafydd a'i ffrindiau gyrraedd yno roedd y carnifal yn ei anterth. Aethon nhw'n syth at Olwyn Fawr Mr Pendro. Roedd hi *yn* anferthol, meddyliodd Dafydd. Curai ei galon fel gordd yn ei frest wrth iddo edrych i fyny ar y cerbydau oedd yn troelli fry yn awyr y nos.

Daeth tyrfa o bobl oddi ar Olwyn Fawr Mr Pendro, gan ddal i chwerthin a sgrechian. Yn sydyn, sylweddolodd Dafydd nad oedd e eisiau mynd arni. Roedd e'n rhy ofnus. Roedd ofn dychrynllyd arno, a dweud y gwir. Ond petai e'n gwrthod mynd ar yr olwyn, byddai Sam a Rhodri'n tynnu'i goes am y peth am weddill ei fywyd. Roedd yn *rhaid* iddo fentro.

Wrth iddo gloi'r bar diogelwch ar draws ei sedd, meddyliodd Dafydd y byddai'n well

ganddo fod yn unrhyw le arall yn y byd. Cafodd y cerbyd ei godi'n uwch ac yn uwch i'r tywyllwch, a hwnnw'n ysgwyd a hercian. Roedd ofn dychrynllyd ar Dafydd.

Ar ben Olwyn Fawr Mr Pendro, doedd Dafydd ddim yn gallu dioddef bod mor uchel. Roedd e hyd yn oed yn uwch na'r craen enfawr yn y dociau ar lan arall yr afon. Gallai weld draw i gyrion y ddinas lle roedd y goleuadau'n gwasgaru i'r tywyllwch. Ymestynnai'r afon fel ruban disglair am filltiroedd. Roedd Dafydd mor uchel, teimlai y gallai ymestyn a chyffwrdd â seren – ond allai e ddim mentro gollwng ei afael ar y bar diogelwch.

Roedd e mor uchel, roedd e'n teimlo'n sâl.

Caeodd Dafydd ei lygaid wrth i Mr Pendro ddechrau symud eto, ac aeth ei gerbyd i fyny ac i lawr yn wyllt. Roedd eiliad fer pan deimlai fel petai'n hongian yn y gofod. Wedyn, cafodd



ei ollwng i lawr yn gyflym. Hyrddiai'r gwynt yn wyneb Dafydd, a sgrechiodd.

Gwyrodd y cerbyd yn ei flaen, a phan agorodd Dafydd ei lygaid roedd e'n saethu ar wib am i lawr. Roedd e'n mynd i fwrw'r llawr!



Yr eiliad honno, symudodd y cerbyd yn sydyn am i fyny wrth i Mr Pendro ei droelli fry i'r awyr unwaith eto. Cafodd Dafydd eiliad o ryddhad – tan iddo sylweddoli y byddai'n rhaid iddo wneud y cyfan unwaith eto.

Ac eto, ac eto, tan i Mr Pendro benderfynu stopio.

Erbyn i Dafydd ddod oddi ar Mr Pendro, teimlai fel petai ei freichiau a'i goesau wedi cael eu ffrwydro i'r awyr ac yna eu gludo 'nôl unwaith eto rhywsut-rhywsut. Dim ond ei galon oedd wedi aros lle roedd hi yn ystod y reid ddychrynllyd, ac roedd honno'n curo fel gordd.

Eto, y tu hwnt i'r ofn dychrynllyd, roedd e'n teimlo gwefr o gyffro'n ddwfn y tu mewn iddo.



'Fe wnes i fe!' chwarddodd Dafydd, wrth iddo redeg at y Ceir Bach gyda Sam a Rhodri. 'Fe wnes i fe, do'n wir!'

Yn sydyn, cofiodd am Mr Llwyd, ond nid fel hen ddyn cas mewn cadair olwyn. Yn lle hynny, gwelodd Dafydd ef fel parasiwtydd ifanc yn syrthio i lawr o'r awyr, yn plymio drwy'r tywyllwch ac yn glanio'n drwm ar y ddaear.

Meddyliodd Dafydd tybed a fyddai Mr Llwyd wedi teimlo'r un cymysgedd o wefr ac arswyd ag yr oedd wedi'i deimlo wrth gwympo drwy'r awyr ar Olwyn Fawr Mr Pendro.



Pennod 3

# Y Dyddiadur Rhyfel

Drwy'r wythnos, bu Dafydd yn meddwl am Mr Llwyd. Doedd e ddim yn siŵr pam, ond wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen, roedd e'n chwarae llai a llai o bêl-droed dychmygol. Yn lle hynny, dechreuodd Dafydd ddychmygu'i hun fel parasiwtydd yn yr Ail Ryfel Byd, yn cael ei ollwng i dir y gelyn ar neges gyfrinachol.

'Does dim rhaid i ti ddod gyda fi i'r cartref nyrsio heddiw, Dafydd,' meddai Mam wrtho brynhawn dydd Gwener. 'Bant â ti i fwynhau dy hunan.'

'O,' meddai Dafydd.

Edrychodd Mam arno. 'Beth sy'n bod?'

'Dim byd,' meddai Dafydd. 'Dim ond meddwl ro'n i y gallwn i fynd â Mr Llwyd mas am dro, dyna i gyd.'

'Mr Llwyd!' meddai Mam yn uchel. 'Pam yn y byd . . ? Doeddet ti a fe ddim yn ffrindiau mawr yr wythnos ddiwethaf.'

'Beth wyt ti'n ei feddwl?' meddai Dafydd o dan ei anadl.

'O, dere nawr, Dafydd,' meddai Mam. 'Beth sydd ar y gweill gyda ti?'

'Dim byd,' meddai Dafydd yn gelwyddog. 'Rydyn ni'n astudio'r Ail Ryfel Byd yn yr ysgol, dyna i gyd, ac ro'n i eisiau gofyn rhywbeth iddo.'

'O, gwaith cartref,' meddai Mam. 'Pam na ddwedest ti hynny? Wel, gwna'n siŵr dy fod ti'n gwrtais wrtho fe'r tro hwn.'



'Fe fydda i'n angel bach,' gwenodd Dafydd.

* * *


Doedd Mr Llwyd ddim yn awyddus iawn i gael ymweliad gan angylion, na neb arall o ran hynny.

'Beth yw hyn?' cwynodd, pan gurodd Dafydd ar ddrws ei stafell a gofyn iddo a fyddai'n hoffi cael ychydig o awyr iach. 'Ydy dy fam wedi rhoi rhagor o arian poced i ti am ddod i ymweld â fi, dwed?'

'Nac ydy,' meddai Dafydd o dan ei anadl.

Unwaith eto, roedd hi'n amhosibl dychmygu'r hen ddyn cwynfanllyd hwn yn arwr ifanc dewr yn ystod y rhyfel.

Roedd Dafydd yn falch o gael sefyll y tu ôl i'r gadair olwyn lle gallai ddianc rhag rhythu ffyrnig Mr Llwyd. Gwthiodd yr hen ŵr drwy



erddi'r cartref nyrsio, gan feddwl pam yn y byd roedd e wedi ffwdanu dod.

'Nawr pam byddai bachgen ifanc fel ti eisiau gwthio hen foi fel fi o gwmpas pan allet ti fod gyda dy ffrindiau?' gofynnodd Mr Llwyd yn sydyn, fel petai e newydd ddarllen meddwl Dafydd.

'D-dwn i ddim,' meddai Dafydd yn ansicr. 'Eisiau – eisiau eich holi am y rhyfel ro'n i, dyna i gyd.'

'A,' meddai Mr Llwyd. 'Gwaith ysgol, ie?'

'Ie . . . hynny yw, na . . . wel,' ochneidiodd Dafydd. Beth *oedd* e eisiau ei ofyn? 'Chi'n gweld, ro'n i ar Olwyn Fawr Mr Pendro'r diwrnod o'r blaen, yn y carnifal. Roedd e'n brofiad mor . . .'

Tawodd Dafydd. Roedd gormod o embaras arno i gydnabod i arwr rhyfel ei fod e wedi teimlo ofn dychrynllyd.

'Roedd e'n brofiad anhygoel,' aeth Dafydd yn ei flaen. 'Yn hollol wyllt. Ac ro'n i'n meddwl efallai ei fod e'n eitha tebyg i naid barasiwt.'

'Felly rwyt ti eisiau gwybod pa fath o brofiad yw gwneud naid barasiwt, wyt ti?' cyfarthodd Mr Llwyd. 'Wel, dwi erioed wedi bod ar Olwyn Fawr, ond mae paratoi i neidio o dwll gollwng awyren wrth i ti hedfan dros dir y gelyn yn debyg i baratoi i neidio i uffern. Nid reid garnifal yw hi, fe alla i ddweud wrthot ti. Dwyt ti ddim yn mentro dy fywyd ar Olwyn Fawr, wyt ti, fachgen?'

'Na,' meddai Dafydd, drwy ei ddannedd.

Dyna hen ddyn ofnadwy oedd e. Trodd Dafydd y gadair olwyn o gwmpas a'i gwthio'n ôl am y cartref nyrsio. Parciodd Mr Llwyd o flaen y teledu heb ddweud gair arall, ac aeth i aros wrth y car am ei fam.





Pam roedd e wedi dod yma yn y lle cyntaf? Roedd y cyfan wedi bod yn wastraff amser llwyr.

* * *



Fore dydd Llun, cyrhaeddodd pecyn yn y post i Dafydd.

'Pwy sy'n anfon anrhegion atat ti?' gofynnodd ei dad.

'Dim syniad,' meddai Dafydd wrth iddo rwygo'r pecyn ar agor. Y tu mewn roedd llyfr nodiadau â chlawr lledr. DEWCH Â HWN 'NÔL AT E. LLWYD MEWN CYFLWR DA, oedd y neges ar y cerdyn bach oedd wedi'i ludio ar y blaen.

Edrychodd Dafydd y tu mewn. Roedd y tudalennau yn felyn gan oedran ac roedd ysgrifen fach, fach drostyn nhw, fel petai'r person oedd yn ysgrifennu wedi ofni na fyddai digon o le. Cododd cwmwl bychan o lwch wrth iddo fodio'r tudalennau.

'Dafydd!' Symudodd Mam ei llaw o flaen ei hwyneb. 'Hei, mae llwch dros fy nghreision ŷd i gyd.'

Arhosodd Dafydd ar dudalen ar hap a darllen:

17eg o Fai, 1944. 22.20.
*Ar fin gadael am y trydydd tro i hedfan dros y rhan o Ffrainc sydd dan reolaeth yr Almaenwyr. Ein tasg yw mapio lle mae safle milwyr y gelyn yn y gogledd. Ond dyma'r dasg fwyaf peryglus eto. Mae Jac yn dweud mai chwarae bach fydd y saethu rydyn ni wedi gorfod ei osgoi hyd yma o'i gymharu â'r gynnau mawr rydyn ni'n eu disgwyl heno. Cwpanaid olaf o de, ac yna bant â ni.*

* * *

10.00
*'Nôl yn fyw! Fe allwn i gladdu brechdan bacwn.*

* * *

O dan hyn, roedd ysgrifen fel traed brain oedd yn anodd ei darllen:



*Chyrhaeddodd awyren Jac ddim 'nôl. Fy ffrind gorau. Dwi'n meddwl ei fod e'n mynd i gerdded drwy'r drws unrhyw funud, gan weiddi am ei frechdan bacwn. Fydd e?*


* * *

'Mae hi'n hen bryd i ti fynd i'r ysgol, Dafydd, a dwyt ti ddim wedi bwyta bron dim,' meddai Mam.

'Beth yw'r llyfr gwych 'ma, 'te?' gofynnodd Dad. 'Mae'n rhaid ei fod e'n rhywbeth arbennig os yw e'n dy rwystro rhag bwyta dy frecwast.'

Roedd Dafydd yn teimlo'n benysgafn.

'Oddi wrth Mr Llwyd mae e,' meddai. 'Mae e wedi anfon ei ddyddiadur rhyfel ata i.'



## Pennod 4

# Trychineb ar ôl Neidio

Gwthiodd Dafydd ddyddiadur rhyfel Mr Llwyd i mewn i'w fag ysgol, ond roedd hi'n amser egwyl cyn iddo gael cyfle i edrych arno eto. Ar y buarth, bodiodd drwy'r tudalennau llychlyd, gan geisio dod o hyd i'r darn roedd e wedi'i ddarllen amser brecwast.

Beth oedd wedi digwydd i Jac, ffrind gorau Mr Llwyd? Oedd e wedi cyrraedd yn ôl yn ddiogel? Gafodd ei awyren ei saethu i lawr? Doedd Dafydd ddim wedi gallu meddwl am ddim byd arall drwy'r bore.

Roedd ysgrifen fân Mr Llwyd yn anodd ei darllen, ac ni allai Dafydd gofio dyddiad y darnau o'r dyddiadur roedd e wedi edrych arnyn nhw o'r blaen. Pan ganodd y gloch ar ddiwedd amser egwyl, doedd Dafydd yn dal heb ddarganfod beth oedd wedi digwydd i Jac.

Roedd hanner yr amser cinio wedi mynd heibio cyn i Dafydd ddod o hyd i'r lle cywir yn y dyddiadur. Yna, o'r diwedd, daeth o hyd i'r ateb. *Roedd* awyren Jac wedi cael ei saethu i lawr dros Ffrainc gan y gynnau mawr. Ddaeth e byth yn ôl. Roedd Mr Llwyd wedi colli'i ffrind gorau.

Safodd Dafydd ar iard chwarae'r ysgol a syllu i'r gwacter.

Tapiodd Sam ef ar ei ysgwydd. 'Ar ba blaned wyt ti?' holodd.

'Edrycha ar hwn,' meddai Dafydd. Dangosodd y dyddiadur rhyfel i Sam a dwedodd yr hanes i gyd wrtho.



Ochneidiodd Sam yn drwm wrth iddo edrych drwy'r llyfr.

'Un diwrnod rydych chi'n ffrindiau gorau, a'r diwrnod nesaf mae un ohonoch chi wedi marw. Dyna beth ofnadwy,' meddai Sam.



Edrychodd y ddau fachgen ar ei gilydd am eiliad wrth iddyn nhw sylweddoli pa mor ddychrynllyd oedd y peth. Yn sydyn, doedd Dafydd ddim yn siŵr a oedd e eisiau darllen rhagor o'r dyddiadur ai peidio. Roedd e'n mwynhau chwarae gêmau rhyfel ar ei gyfrifiadur, ond nid gêm oedd dyddiadur Mr Llwyd. Rhywbeth oedd wedi digwydd go iawn oedd e. Roedd hynny'n ei wneud bron yn rhy boenus i'w ddarllen.





Er hynny, aeth Dafydd â'r dyddiadur i'w ystafell ar ôl swper y noson honno. Dechreuodd ei ddarllen o'r dechrau'n deg.


Darllenodd am y rhaglen hyfforddi galed roedd Mr Llwyd wedi gorfod ei chwblhau er mwyn dod yn barasiwtydd, ac am ei gyrchoedd nos yn hedfan dros Ffrainc. Darllenodd am farwolaeth Jac unwaith eto.

Roedd hi'n ymddangos fel petai Mr Llwyd heb gael amser o gwbl i feddwl am farwolaeth ei ffrind cyn gorfod mynd eto ar neges arbennig. Ei neges fwyaf peryglus eto.

* * *

24ain o Fai 1944

*'Dydych chi ddim yn dod yn arwr rhyfel achos eich bod chi'n lladd y gelyn,' meddai ein harweinydd wrthon ni heno. 'A dydy bod yn ofnus ddim yn golygu eich bod chi'n llwfr. Rhoi rhyddid i berson arall sy'n eich gwneud chi'n arwr.'*




*Ond dydw i ddim eisiau bod yn arwr rhagor. Ro'n i'n meddwl fy mod i. Roedd Jac a finnau'n meddwl hynny. Nawr mae e wedi marw, a heno fe fyddwn i'n rhoi unrhyw beth i fod yn ôl yn fy hen fywyd arferol unwaith eto, yn chwarae pêl-droed gyda fy ffrind gorau. Ond mae bywydau cymaint o bobl yn dibynnu ar gyflawni'r neges yma. Mae byddinoedd Hitler yn symud ar draws Ffrainc ac mae'n rhaid i ni helpu'r mudiad Gwrthwynebu wrth iddyn nhw ymladd yn eu herbyn.*

*Heno rhaid i mi wneud naid barasiwt i dir y gelyn. Dim ond ymarfer neidio rydw i wedi'i wneud o'r blaen, ond rydw i wedi dychmygu'r peth go iawn gymaint o weithiau.*

*Bydd goleuadau'r awyren yn diffodd wrth i ni gyrraedd y man gollwng. Fe fydda i'n cymryd fy lle ac yn paratoi i neidio o dwll gollwng yr awyren. Oddi tanaf bydd gwagle du. Pan fyddwn ni'n gweld yr arwydd – un pelydryn o olau tortsh mewn cae – bydd yn rhaid i mi neidio. Fe fydda i'n pwyso ymlaen ac yn cwympo i'r gwagle.*

*Y cyfan y galla i ei wneud yw gweddïo nad yw gynwyr y gelyn yn aros amdanaf a 'mod i'n glanio'n ddiogel.*

*Rydw i'n teimlo'n sâl gan ofn. Ond rhaid i mi wneud hyn. Rhaid i'r neges lwyddo. Fe wnaf i hyn dros Jac.*

* * *





Roedd y tudalen nesaf yn wag. Edrychai fel petai'r dyddiadur ar ben. Ond yna daeth Dafydd o hyd i un darn arall ychydig dudalennau'n nes ymlaen.

Tachwedd 1945
*Mae'r rhyfel drosodd erbyn hyn. A heddiw des i o hyd i'r hen ddyddiadur hwn eto. Prin y gallwn i ddioddef ei ddarllen. Hwn fydd y darn olaf, er nad ydw i'n gwybod pam rydw i'n ei ysgrifennu o gwbl. Pwy ond fi fydd byth yn darllen y dyddiadur hwn?*

*Noson y neges, hedfanon ni dros yr ardal gollwng, ond doedd dim arwydd o unrhyw dortsh. Maen nhw wedi anghofio, meddylion ni. Doedden ni ddim eisiau meddwl eu bod nhw wedi cael eu cymryd yn garcharorion, neu wedi'u lladd. Ond roedd gen i wybodaeth bwysig i'w rhoi i'r mudiad Gwrthwynebu. Roedd yn rhaid i mi neidio.*

*Anghofia i fyth mo'r eiliad yr es i allan drwy dwll gollwng yr awyren. Arswyd pur! Daeth gwth*

*o wynt rhewllyd wrth i mi blymio drwy'r tywyllwch. Wedyn, ces fy nhynnu'n sydyn am yn ôl wrth i'r parasiwt agor. Yna, daeth y teimlad mwyaf anhygoel, chwa boeth o dân a losgodd fy arswyd i gyd.*

*Teimlad o fod yn fyw go iawn oedd e. Fe wnes i fe! meddwn wrthyf fy hunan wrth i mi lanio'n drwm ar y ddaear.*

*Ond doeddwn i ddim wedi – ddim eto. Eiliad yn ddiweddarach ffrwydrodd y byd yn fy wyneb.*

*Nid hon oedd yr ardal gollwng. Ro'n i yn y cae anghywir. Ro'n i wedi glanio ar faes ffrwydron.*

*Dydw i ddim yn cofio dim byd arall tan y foment y deffrais i mewn poen difrifol mewn gwely dieithr. Dwedon nhw wrtha i fy mod i wedi colli fy nghoesau yn y ffrwydrad. Yr eiliad honno ro'n i'n dymuno bod yn farw. Ro'n i wedi methu. Do'n i ddim yn arwr.*





*Ond dwedon nhw wrtha i fy mod i'n arwr. Roedd yr adroddiadau ar gyfer y mudiad Gwrthwynebu ro'n i wedi'u clymu wrth fy mrest mewn waled arbennig wedi dod drwy'r ffrwydrad yn gyfan. Roedd y mudiad Gwrthwynebu wedi'u defnyddio nhw i achub llawer o fywydau. Rhaid bod yr holl fywydau yna'n werth aberthu coesau un dyn.*

*Er mwyn ennill rhyddid i eraill, roedd yn rhaid i mi golli fy rhyddid fy hunan.*

* * *





Caeodd Dafydd y dyddiadur. Roedd e'n teimlo'n rhyfedd iawn. Ond wedyn cafodd y syniad mwyaf rhyfeddol.

Gwyddai Dafydd mai syniad iddo fe, a fe yn unig oedd y syniad rhyfeddol yma. Doedd e ddim yn siŵr pam, ond teimlai mai ei neges e oedd hi. Neges arbennig iawn. Neges bwysicaf ei fywyd.



Pennod 5

# Y Naid Bynji

'Naid barasiwt?' meddai Sam. 'Wyt ti'n gall, dwed?'

Syllodd Sam a Rhodri ar Dafydd mewn rhyfeddod.

'Sut galli di wneud naid barasiwt pan fuest ti bron â methu mynd ar yr Olwyn Fawr?' meddai Rhodri. 'Roedd ofn drwy dy din arnat ti. Fe welais i di.'

'Nag oedd!' meddai Dafydd yn gelwyddog. 'Ac fe es i arni hi, on'd do fe?'

‘Sut rwyt ti’n trefnu i wneud naid barasiwt?’ gofynnodd Sam.

‘Dim clem,’ cyfaddefodd Dafydd. ‘Unrhyw syniadau?’

Doedd dim syniad gan Rhodri.

Cododd Sam ei ysgwyddau.

‘Chwilio yn y Tudalennau Melyn?’ meddai Dafydd.

* * *

Rhoddodd yr ysgol hedfan gyntaf ffoniodd Dafydd stop ar y syniad cyn iddo ddechrau, hyd yn oed.

‘Sori, fachgen. Mae’n rhaid i ti fod dros un deg chwech oed i wneud naid barasiwt,’ meddai’r hyfforddwr wrtho.



Ochneidiodd Dafydd.

‘Neges wedi’i chanslo,’ dwedodd wrth y lleill.

‘Neges arbennig, ie?’ gofynnodd y llais ar ben arall y ffôn. ‘Oes rhaid iddi fod yn naid barasiwt?’

‘Oes,’ meddai Dafydd.

‘Trueni,’ meddai’r hyfforddwr, ‘achos mae naid bynji’n bosib. Dyna’r peth agosaf y gallet ti ei wneud i naid barasiwt.’

‘Naid bynji!’ gwaeddodd Dafydd. Gollyngodd y ffôn yn llawn cyffro. ‘Fe wnaiff hynny’r tro. Naid bynji amdani!’

* * *



'Fe fydd dy fam yn mynd yn benwan,' meddai tad Dafydd, pan glywodd am y Naid Bynji. 'Anghofia'r peth, Dafydd.'

'Ond dwi'n ei gwneud hi dros achos da,' dadleuodd Dafydd.

'Dros achos da iawn, dwi'n gwybod hynny. Dwi ddim yn hoffi'r syniad, dyna i gyd, a fydd dy fam ddim chwaith,' meddai ei dad.

Aeth mam Dafydd ddim yn benwan. Dim ond dweud na wnaeth hi – na, yn bendant.

Roedd Dafydd ar fin tynnu drws yr ystafell fyw yn glep y tu ôl iddo a rhuthro i fyny'r grisiau pan feddyliodd am rywbeth gwell. Aeth i nôl dyddiadur rhyfel Mr Llwyd.

'Gwrandewch ar hyn,' ymbiliodd.

Darllenodd y darn am Jac, a'r darn a ysgrifennodd Mr Llwyd y noson cyn y naid barasiwt. Wedyn darllenodd y darn olaf un.

'Hanner can mlynedd mewn cadair olwyn,' meddai Dad o'r diwedd. 'Ac mae'n rhaid bod cymaint o ddynion ifainc eraill wedi colli eu rhyddid fel Mr Llwyd, ac wedi gorfod treulio gweddill eu bywydau mewn ysbytai a chartrefi nyrsio i'r rhai gafodd eu hanafu yn y rhyfel.'

'Mae'r peth yn torri dy galon di,' meddai Mam. 'Ond dwi ddim yn gweld beth sydd i'w ennill wrth i Dafydd fentro'i fywyd mewn naid bynji.'

'Dwi ddim yn mentro fy mywyd,' dadleuodd Dafydd. 'Fe fydda i'n gwisgo harnais ddiogelwch a bydd arbenigwyr ar neidio bynji yno i wneud yn siŵr bod popeth yn iawn.'

'Ond pam?' mynnodd Mam.

'Dwi eisiau gwneud naid noddedig,' eglurodd Dafydd, 'i godi arian i brynu cadair olwyn drydanol. Fe ddwedaist ti nad oedd digon o nerth gan Mr Llwyd i'w wthio'i hunan




o gwmpas nawr. Fe fyddai cadair olwyn drydanol yn rhoi ychydig o ryddid iddo fe. Mae e'n haeddu gymaint â hynny, on'd yw e, ar ôl yr hyn wnaeth e?'

Roedd Dafydd hefyd yn cofio'r geiriau yn nyddiadur Mr Llwyd. Roedd gwefr ac arswyd y naid barasiwt yn teimlo fel bod yn fyw go iawn, dyna roedd Mr Llwyd wedi'i ysgrifennu.

'Dwi wir eisiau ei wneud e,' meddai Dafydd wrth ei rieni.

'O'r gorau,' meddai Mam o'r diwedd. 'Os gelli di brofi i mi ei fod e'n ddiogel, fe gei di ei wneud e. Ond paid dod ata i'n llefain os byddi di'n torri dy wddf!'

* * *



'Barod?' gofynnodd yr hyfforddwr bynji.

Daeth ton o arswyd dros Dafydd. Fyddai e byth yn barod. Roedd hwn yn syniad dwl – syniad gwael a dwl iawn. Doedd dim gwahaniaeth ganddo bellach petai'n dweud na fyddai'n neidio a gwneud ffŵl ohono'i hunan o flaen Mam a Dad, Sam a Rhodri, y gohebwyr newyddion, a'r holl blant a'r athrawon o'r ysgol. Roedd e'n rhy ofnus i boeni am y peth. Allai e mo'i wneud e.

Roedd y Naid Bynji wedi dod yn dipyn o ddigwyddiad yn yr ardal. 'Gwna fe yn rhywle annisgwyl,' roedd yr hyfforddwr wedi'i ddweud, 'wedyn fe gei di dyrfa fawr. Po fwyaf o bobl ddaw i dy weld di, mwyaf o arian y byddi di'n ei godi.' Am ryw reswm roedd Dafydd wedi meddwl am y craen enfawr yn y dociau ar lan yr afon, yr un roedd e wedi'i weld o ben yr Olwyn Fawr y noson honno yn y carnifal. Roedd yr hyfforddwyr bynji wedi

mynd i'w weld ac wedi dweud ei fod e'n berffaith ar gyfer y naid.

Nawr roedd e'n sefyll ar ben y craen yn y dociau o flaen tyrfa enfawr, yn paratoi i wneud naid bynji.

Edrychodd Dafydd draw ar yr Olwyn Fawr ar ochr draw'r afon. Edrychai'n llonydd a di-liw yng ngolau dydd. Roedd Mr Llwyd yn iawn. Chwarae bach oedd reid ar Mr Pendro o'i gymharu â hyn. Ond allai naid bynji ddim bod mor arswydus â naid barasiwt go iawn. Un oedd yn gwneud i ti lanio yn nhir y gelyn yng nghanol y nos, yn union ar ben ffrwydryn tir a hwnnw'n tanio.

Doedd dim rhaid cyrraedd y ddaear, hyd yn oed, wrth wneud naid bynji. Dim ond glanio ben i waered yn yr awyr roeddech chi, yn sownd wrth raff ddiogelwch elastig.

Fe fydda i'n marw o ofn, meddyliodd Dafydd.




Wedyn gwelodd Mr Llwyd yn ei gadair olwyn, wrth ochr Mam a Dad. Pan ddywedodd e wrth Mr Llwyd am y naid bynji a pham roedd e'n ei gwneud hi, roedd yr hen ddyn wedi edrych arno mewn anghrediniaeth ac yna roedd ei lygaid ffyrnig wedi llenwi â dagrau. Roedden nhw wedi sgwrsio'n hir y prynhawn hwnnw, fe a Mr Llwyd.

Nawr wrth i Dafydd edrych i lawr, cyffyrddodd yr hen ddyn â'i dalcen, gan roi saliwt iddo.

Anadlodd Dafydd allan yn hir. Gallai'n hawdd fethu gwneud y naid o flaen pawb arall, ond rywsut allai e ddim siomi Mr Llwyd.

Beth oedd geiriau arweinydd Mr Llwyd yn y dyddiadur rhyfel? Dydy bod yn ofnus ddim yn golygu eich bod chi'n llwfr. Rhoi rhyddid i berson arall sy'n eich gwneud chi'n arwr.



Caeodd Dafydd ei lygaid. Roedd ei galon yn curo fel gordd wrth iddo gyfri'r curiadau unwaith, ddwywaith, dair gwaith. Pwysodd ymlaen.

Yna gadawodd iddo'i hun gwympo.



*Hefyd yn y gyfres:*

Dilys Ddwl
Dilys Ddwl ar Goll
Peidiwch â Mynd i'r Seler
Tair Gôl i Al
Gwystl
Taro'r Targed
Y Ddau Jac
Codi Calon Tad-cu
Y Tŷ Dienw
Byw gyda Fampirod
Gwarchae!
Ysgol Cŵn Bach
Brad
Wmba Bwmba o'r Gofod
Cath Modryb Bela
Dydd Gwener am Byth
Ail Lwytho'r GameBoy
Huw Puw a'r Tadau Hud
Arwr y Naid Bynji
Y Dwsin Drwg